**Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol**
—
**Culture, Communications, Welsh Language, Sport, and International Relations Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDiwylliant@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDiwylliant
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddCulture@senedd.wales
senedd.wales/SeneddCulture
0300 200 6565

Mark Drakeford AS
Prif Weinidog Cymru
Vaughan Gething AS
Gweinidog yr Economi
Llywodraeth Cymru

09 Chwefror 2024

## Blwyddyn Cymru ac India

Annwyl Mark a Vaughan,

Yn ein cyfarfod ar 24 Ionawr 2024, buom yn trafod cynlluniau Llywodraeth Cymru ar gyfer dathliad blwyddyn Cymru yn India yn ystod 2024.

Mae'r Pwyllgor yn croesawu ymgyrch Cymru yn India a hoffai wybod mwy am y maes hwn o waith Llywodraeth Cymru ar Gysylltiadau Rhyngwladol - yn enwedig yng ngoleuni'r hinsawdd ariannol heriol y gosodwyd Cyllideb Ddrafft 2024-25 ynddo, a'r effeithiau posibl ar yr hyn y gellir ei gyflwyno. Byddwn yn ddiolchgar am eich ymateb i'r cwestiynau a ganlyn:

1. A allwch chi roi rhagor o wybodaeth i'r Pwyllgor am gynlluniau Llywodraeth Cymru ar gyfer blwyddyn Cymru yn India 2024, gan gynnwys amserlenni a gweithgareddau sydd wedi'u cynllunio?

2. Pa wersi a ddysgwyd o flynyddoedd blaenorol 'Cymru Yn' ar gyfer Cymru yn India 2024?

3. Yn ystod y gwaith craffu ar Gyllideb Ddrafft 2024-25, dywedodd Gweinidog yr Economi a'r Gweinidog Materion Gwledig wrth Bwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig y bydd rhaglen fasnach Llywodraeth Cymru yn cael ei lleihau oherwydd pwysau cyllidebol. Rydym yn deall y byddai hyn yn golygu cymryd rhan mewn llai o deithiau masnach dramor, ac efallai cynyddu gweithgarwch rhithwir. Sut y mae Llywodraeth Cymru yn cysoni hyn â datganiad y Prif Weinidog mai ffocws Cymru yn India fydd 'datblygu cysylltiadau masnach a buddsoddi, cymell tawel a chysylltiadau iechyd y GIG'?

4. A allwch chi gadarnhau dyraniad y gyllideb ddrafft ar gyfer Cymru yn India 2024 ac a yw hyn wedi'i leihau?

5. Pa effaith, os o gwbl, y mae'r dull diwygiedig yr amlinellodd y Gweinidogion i Bwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig wedi'i chael ar gynllunio ar gyfer Cymru yn India?

6. Yng ngoleuni gostyngiadau i gyllidebau perthnasol, sut y bydd Llywodraeth Cymru yn cydbwyso gweithgareddau Cymru yn India â gweithgareddau rhyngwladol eraill, gan gynnwys â'i pherthnasoedd â blaenoriaeth, fel y'u rhestrir yn y Strategaeth Ryngwladol?

7. A allwch chi gadarnhau a oes cynlluniau ar hyn o bryd ar gyfer ymweliadau tramor gan Weinidogion ag India?

Byddwn yn ddiolchgar o gael ymateb erbyn 08 Mawrth 2024.

Yn gywir,


**Delyth Jewell AS**
**Cadeirydd y Pwyllgor**


Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.